**PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 6 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr: J. Aviet, G.M. Ball, I. Buckley, G.D.D. Carroll, S.M. Hanks, W.A. Hennessy ac S.D. Perkes

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cynrychiolydd Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro) a V. John (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolydd Panel); E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) ac M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Cynghorwyr S. Campbell ac M.J.G. Morgan; G. Doyle a H. Smith (Cynrychiolwyr o'r Gweithgor Tenantiaid / Panel).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2021/2 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – NODI Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol 2021/22.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

ARGYMHELLWYD – NODI’r sefyllfa o ran Cyllideb Refinew 2022/23 yr Awdurdod, o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2022 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) Y DYLID nodi’r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 ar gyfer y cynlluniau sydd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) NODI’r defyndd o Awdurdod Dirprwyedig mewn perthynas â phrosiectau a nodir yn Argymhelliad (2) o’r adroddiad.

(3) NODI’r defyndd o Bwerau Argyfwng fel y manylir arnynt yn Atodiad 1 yr adroddiad.

(4) BOD y newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a’r blynyddoedd i ddod, fel y nodir yn Argymhelliad (4) o’r adroddiad, yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) O ystyried cynnwys yr adroddiad ar gynnydd y Rhalen Gyfalaf, y defnydd o o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Argyfwng a newidiadau i’r Rhaglen Gyfalaf.

EITEM AGENDA 7. ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2021/22 (CAT) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI’r canlyniadau perfformiad a’r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2021/22, sy’n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi’r camau adferol sydd i’w cymryd i fynd i’r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i’r afael â’r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(3) NODI'r cynnydd sy'n cael ei wneud drwy strategaeth adfer y Cyngor a Chynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth mewn ymateb i'r pandemig Coronafeirws parhaus.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.